Annwyl Gydweithiwr

# DALIWCH SYLW AR UNWAITH

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gofyn i bob cynghorydd/swyddog/cyflogai/gweithiwr/ymgynghorydd/darparwr trydydd parti atal unrhyw brosesau ddileu a dinistrio dogfennau o ran gwybodaeth ynghylch pandemig Covid-19 trwy gydol Ymchwiliad Covid-19 y DU a hyd nes y clywir yn wahanol gan Gyngor Bro Morgannwg.

***Mae "dogfen" yn golygu unrhyw beth y cofnodir gwybodaeth o unrhyw ddisgrifiad ynddo, boed ar ffurf papur neu electronig, ac mae'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, adroddiadau, adolygiadau, cofnodion bwrdd/pwyllgor, nodiadau cyfarfod/presenoldeb, nodiadau llawysgrifau, memoranda, cylchlythyron, dogfennau llywodraethu/cyfansoddiadol, dogfennau contract, deddfwriaeth, llythyrau/e-byst (mewnol ac allanol), negeseuon WhatsApp, gwybodaeth o wefannau, canllawiau/codau ymddygiad, dogfennau/datganiadau polisi, erthyglau, ffotograffau, recordiadau fideo a sain, tystiolaeth gorfforol, datganiadau tystion a'u harddangosion.***

Mae'r hysbysiad hwn yn effeithiol ar unwaith a rhaid cydymffurfio ag ef.

**Mae Ymchwiliad Covid-19 y DU dan gadeiryddiaeth y Foneddiges Hallett wedi'i sefydlu i archwilio ymateb y DU i bandemig Covid-19 ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Mae'r Ymchwiliad yn cael ei gynnal dan Ddeddf Ymholiadau 2005 a Rheolau Ymchwiliadau 2006. Bydd angen i Awdurdodau Lleol Cymru gyflwyno gwybodaeth drwy CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) neu'n uniongyrchol i Ymchwiliad Covid-19 y DU.**

**Mae Cadeirydd yr Ymchwiliad Covid-19 yn gofyn i bob Awdurdod Lleol gymryd camau i sicrhau bod deunydd sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad o bosibl yn cael ei gadw. Felly,**

**cyhoeddir yr hysbysiad hwn yn unol â'r gofynion hyn a mae angen cadw unrhyw ddogfen a all fod yn berthnasol.** 2022-10-11-Letter-from-Ben-Connah-to-Darren-Tierney-re-record-retention.pdf (covid19.public-inquiry.uk) .

Ceir mwy o wybodaeth ym Mholisi Cadw Data'r Cyngor ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19.

Cofion

| | |
|---|---|
| Rob Thomas | Y Cynghorydd Lis Burnett |
| Prif Weithredwr | Arweinydd |
| Cyngor Bro Morgannwg | Cyngor Bro Morgannwg |

Dyddiad: 31 Hydref 2022